**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones MS
Llywydd
Senedd Cymru
CAERDYDD
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Marchnata Hadau a Marketing of Seeds a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yr wyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2022, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn dirymu, yn disodli ac yn cywiro'r Rheoliadau Marchnata Hadau, a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 ("y Rheoliadau blaenorol") a oedd mewn grym yn flaenorol. Gosodwyd y Rheoliadau blaenorol hyn yn y Senedd ar 6 Hydref 2022 a daethant i rym ar 27 Hydref 2022. Gwnaethant ddiwygiadau gweithrediad i sicrhau bod darpariaethau yng nghyfraith Cymru ar blâu sy'n ymwneud â hadau, planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi yn parhau i fod yn weithredol gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod y plâu hyn yn parhau i fod o dan reolaeth yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad (LJCC) ar y Rheoliadau blaenorol ddau bwynt craffu technegol ac argymhellodd fod y rhain yn cael sylw. Roedd pwynt craffu technegol 1 yn ymwneud ag anghysondeb rhwng teitlau'r fersiynau Cymraeg a'r Saesneg o'r Offeryn Statudol. Yn fersiwn Gymraeg yr offeryn statudol y teitl yw (Diwygio) (Cymru) tra bo teitl y fersiwn Saesneg yw (Wales) (Amendment). Nododd pwynt craffu technegol 2 ddyfyniad coll yn Rheoliad 2(2)(a) yn fersiwn Gymraeg yr Offeryn sy'n ei gwneud yn aneglur pa destun sy'n cael ei ddisodli, sy’n amharu ar effaith y rheoliad. Mae yna anghysondebau hefyd yn y dyfynodau a ddefnyddir o amgylch termau diffiniedig yn y fersiwn Cymraeg o Reoliad 2(a)(i) a 2(a)(iii).

Gwnaed Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2022 i gywiro'r pwyntiau hyn. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys cymal sy'n dirymu'r Offerynnau Statudol Saesneg a Chymraeg gwreiddiol. Mae'r Rheoliadau newydd yn disodli'r Rheoliadau a ddirymwyd, gyda theitl newydd sef "... (Cymru) (Diwygio)..." yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae hyn yn datrys yr anghysondeb yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r offeryn Statudol. Mae'r Rheoliadau newydd hefyd yn ychwanegu marc dyfyniad agoriadol yn Rheoliad 2(a). Yn drydydd, ceir defnydd cyson o ddyfyniadau o amgylch termau diffiniedig yn Rheoliad 2(a)(i) a (iii) yn y ddwy fersiwn. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill ac nid yw effaith y Rheoliadau wedi newid.

Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a bydd y pwerau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. O'r herwydd, mae angen i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth y Siambr a Gwasanaethau Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth.

Regards,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**